**Cwestiynau Cyffredin**
**Gorffennaf 2024**

**C. Pam mae'r uned Mamolaeth a'r Uned Babanod Newydd-anedig Ysbyty Tywysoges Cymru (POW) yn cau a phryd mae'n digwydd?**
A. O ddydd Llun 2 Medi eleni, mae'r unedau'n cau dros dro am 12 wythnos, er mwyn ein galluogi i ddod â'n systemau trin aer a'n cyflenwad trydan i fyny i'r safonau gofynnol. Mae hwn yn fuddsoddiad o £1m mewn gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol ar y safle – rydym yn buddsoddi i sicrhau y gallwn barhau i ddarparu gofal diogel i'n teuluoedd.

**C. Pa gyfleusterau mamolaeth a newyddenedigol eraill sydd ar gael yn ystod y cyfnod cau dros dro yn POW?**
A. Trwy gydol y cyfnod pan nad yw POW yn gallu cynnig mynediad, bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i gynnig gwasanaethau newyddenedigol yn ogystal â gwasanaethau mamolaeth dan arweiniad bydwragedd ac obstetrig yn Ysbyty'r Tywysog Siarl. Mae hyn yn cynnwys ward cyn-geni, cyfnod prysuro'r geni, y ward geni, theatrau obstetrig, Tair Afon (Ochr yn ochr â'r Uned Bydwreigiaeth), wardiau ôl-enedigol a gwasanaethau newyddenedigol. Mae Canolfan Geni Tirion, ein huned bydwreigiaeth annibynnol yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg hefyd ar gael.

## Mamolaeth

**C. Fyddaf yn dal i allu cael gofal cyn-geni cymunedol/gofal ôl-enedigol gyda fy mydwraig/tîm cymunedol?**
A. Ni fydd unrhyw newid i'r trefniadau presennol ar gyfer gofal cyn-geni ac ôl-enedigol sy'n cael eu darparu gan eich bydwraig/tîm cymunedol.

**C. Ble fydda i'n mynd am fy sganiau sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd?**
A. Bydd yr holl sganiau arferol ac wedi'u hamserlennu sy'n ymwneud â beichiogrwydd yn parhau fel arfer trwy glinig cyn-geni ar y safle POW, mae hyn yn cynnwys sganiau dyddio, sgan anomaledd (20 wythnos) a sganiau twf yn ddiweddarach yn ystod beichiogrwydd.

**C. Sut gallwn i drafod fy anghenion unigol/materion sy'n ymwneud â'm cynllun geni?**

A. Mae pob menyw a pherson beichiog yn cael cynnig gofal cyn-geni arferol a thrafodaethau cynllunio genedigaeth tua 36 wythnos gyda'u bydwraig gymunedol penodol. Gall eich bydwraig gymunedol gynnig cymorth unigol a phersonol a gwybodaeth am eich amgylchiadau unigol. Byddem yn eich annog i ofyn am y drafodaeth hon ar y cynllun geni i wneud yn siŵr bod eich bydwraig yn gallu rhoi cyngor ac esboniadau i unrhyw gwestiynau neu ymholiadau sydd gennych, ac i leihau unrhyw bryderon.

**C. Beth os ydw i'n cael fy nghynghori i roi genedigaeth o fewn uned dan arweiniad obstetrig, oes gen i ddewis ble i fynd?**
A. Bydd pob menyw a pherson beichiog yn gallu gwneud dewis, sy'n cywir iddyn nhw. Yn ogystal â chynnig Ysbyty'r Tywysog Siarl ym Merthyr Tudful, mae ein Byrddau Iechyd cyfagos (Ysbyty Singleton ym Mae Abertawe ac Ysbyty Athrofaol Cymru (YAC) yng Nghaerdydd a'r Fro) yn ymwybodol o'r newid i wasanaethau yn POW yn ystod y cyfnod hwn ac wedi cynnig cefnogaeth. Byddwn yn gwneud ein gorau glas i ddarparu ar gyfer eich dewis o leoliad geni yn amodol ar gapasiti.

Rydym yn eich annog i drafod eich opsiynau ar gyfer man geni a threfnu trafodaeth cynllun geni gyda'ch bydwraig gymunedol benodol. Gall eich bydwraig gymunedol gynnig cymorth unigol a phersonol a gwybodaeth am eich amgylchiadau unigol, a gwneud trefniadau gyda byrddau iechyd cyfagos, os mai dyna fyddai orau gennych.

**C. Beth sy'n digwydd os yw fy uned obstetrig agosaf y tu allan i ardal ddaearyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ac mai dyna lle byddai'n well gen i fynd i gael fy mabi?**
A. Bydd pob menyw a pherson beichiog yn gallu gwneud dewis sy'n cywir iddyn nhw, ac mae ein byrddau iechyd cyfagos (Bae Abertawe a Chaerdydd a'r Fro) yn ymwybodol o'r newid i wasanaethau yn POW yn ystod y cyfnod hwn.

Os ydych yn derbyn gofal mewn bwrdd iechyd cyfagos, bydd eich bydwraig gymunedol yn trefnu i'ch gwybodaeth gael ei chofrestru yn y man geni o'ch dewis erbyn 36 wythnos o feichiogrwydd. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y bwrdd iechyd yr ydych wedi dewis rhoi genedigaeth wedi eich cofrestru gyda'ch gwybodaeth a'ch dewisiadau clinigol diweddaraf Os ydych yn derbyn gofal cyn-geni dan arweiniad obstetrig, bydd hyn yn parhau yng Nghlinig Cyn Geni Tywysoges Cymru. Does dim gofyniad i chi fynychu apwyntiad cyn-geni y tu allan i Gwm Taf Morgannwg (e.e. Abertawe neu Gaerdydd) oni bai y nodir yn glinigol.

**C. Gall fy mhartner(iaid) geni fod gyda mi yn ystod yr enedigaeth?**

A. Gall, gall eich partner geni ddod gyda chi yn ystod yr enedigaeth dim ots ble rydych chi’n rhoi eich genedigaeth. Byddwn yn parhau i gefnogi ymweliadau gan bartneriaid geni a theuluoedd ehangach ar draws safleoedd Byrddau Iechyd eraill yn unol â’n trefniadau presennol (gellir dod o hyd i hyn ar ein gwefan).

**C. Beth os daw fy mabi yn gynharach na 37 wythnos, neu os yw'n dod yn sâl yn annisgwyl?**
A. Byddwn yn parhau i gynnig gofal newyddenedigol yn Ysbyty’r Tywysog Siarl. Mae llwybrau a chanllawiau sefydledig ar gyfer babanod sy'n cael eu geni cyn 32 wythnos. I'r rhai sy'n bwriadu rhoi genedigaeth yn Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Singleton, mae unedau newyddenedigol ar gael yn y ddau ysbyty.

**C. Sut byddwn i’n cael mynediad at gyrsiau cyn-geni?**
A. Mae nifer o ddosbarthiadau cyn-geni a theithiau ar gael yn Uned Bydwreigiaeth Rhydd Tirion yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Uned Bydwreigiaeth a Tair Afon Ochr yn ochr ag Uned Bydwreigiaeth yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, sydd ar gael i bob menyw ar draws Cwm Taf Morgannwg.

**C. Ble bydda i’n cael fy ngenedigaeth Cesaraidd wedi’i gynllunio?**
A. Bydd toriadau Cesaraidd wedi'u cynllunio yn cael eu cynnal yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, Merthyr Tudful. Os ydym yn argymell eich bod yn cael genedigaeth cesaraidd, neu os ydych yn bwriadu cael genedigaeth cesaraidd, byddwn yn eich cefnogi gyda thrafodaeth unigol am eich cynlluniau ac yn hwyluso taith o amgylch yr uned ymlaen llaw. Ni fydd unrhyw enedigaethau Cesaraidd yn Ysbyty Tywysoges Cymru yn ystod y cyfnod hwn.

**C. Ble byddwn i’n cael fy nghyngor am argymhellion prysuro'r geni?**
A. Os ydyn ni’n argymell eich bod yn prysuro'r geni, neu os ydych yn bwriadu prysuro'r geni, mae'n debygol y bydd hyn yn digwydd yn Ysbyty'r Tywysog Siarl.

Ni fyddwn yn gallu prysuro'r geni yn Ysbyty Tywysoges Cymru yn ystod y cyfnod y gwneir y gwaith hwn.

**C. Rydw i’n cynllunio neu’n ystyried genedigaeth yn y gartref, sut gallai’r newid dros dro hwn effeithio arnaf i?**
A. Bydd y gwasanaeth genedigaeth yn y gartref yn parhau i fod ar agor ac ar gael yn ystod y cyfnod hwn, gyda rotâu bydwragedd cymunedol yn cefnogi cyflenwi 24/7 i fenywod sy’n geni gartref. Os bydd angen i chi gael trafnidiaeth (ar gyfer monitro ychwanegol, poenladdwyr neu

adolygiad gan feddyg), bydd hyn yn cael ei drefnu i'r uned obstetrig agosaf nesaf (Ysbyty Tywysog Siarl, Ysbyty Singleton, Ysbyty Athrofaol Cymru) gan na fydd Ysbyty Tywysoges Cymru yn gallu derbyn unrhyw dderbyniadau yn ystod y cyfnod o amser y mae'r gwaith yn cael ei wneud. Bydd y rhan fwyaf o drafnidiaeth yn cael eu cefnogi gan Wasanaethau Ambiwlans Cymru, gan ddilyn ein llwybrau a'n canllawiau arferol, oni bai ei bod yn ddiogel yn glinigol argymell trafnidiaeth yn eich cludiant personol eich hun.

**C. Beth ddylwn i ei wneud os rydw i'n barod i roi genedigaeth ond dydw i ddim yn meddwl gallwn i cyrraedd yr ysbyty?**
A. Rydym yn deall y gall genedigaeth fod yn anrhagweladwy mewn nifer fach o achlysuron. Drwy gydol y cyfnod y mae'r gwaith yn cael ei wneud, fel gydag unrhyw amser arall, mae rotâu ar alwad bydwragedd cymunedol yn cefnogi cyflenwi 24/7 ar gyfer genedigaethau annisgwyl yn y gymuned.

Os bydd angen i chi gael trafnidiaeth (ar gyfer monitro ychwanegol, poenladdwyr neu adolygiad gan feddyg), bydd hyn yn cael ei drefnu i'r uned obstetrig agosaf nesaf (Ysbyty Tywysog Siarl, Ysbyty Singleton, Ysbyty Athrofaol Cymru) gan na fydd Ysbyty Tywysoges Cymru yn gallu derbyn unrhyw dderbyniadau yn ystod y cyfnod o amser y mae'r gwaith yn cael ei wneud. Bydd y rhan fwyaf o drafnidiaeth yn cael eu cefnogi gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru gan ddilyn ein llwybrau a'n canllawiau arferol, oni bai ei bod yn ddiogel yn glinigol i argymell trafnidiaeth yn eich cludiant personol eich hun.

**YN YSTOD Y CAU HWN, NI FYDD TIMAU ARBENIGOL MAMOLAETH NEU NEWYDD-ENEDIG AR SAFLE YSBYTY TYWYSOGES CYMRU.**

**OS YDYCH YN AMAU EICH BOD YN RHOI GENEDIGAETH, PEIDIWCH Â CHEISIO CAEL MYNEDIAD I'N HADRAN DAMWEINIAU AC ARGYFWNG GAN NI FYDD Y TIMAU MEDDYGOL A BYDWREIGAETH ARBENIGOL AR GAEL.**

**C. Rydw i'n bwriadu cael fy mabi yn Uned Bydwreigiaeth Annibynnol Tirion (FMU) yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg (RGH). Fydd hyn yn cael ei effeithio?**

A. Bydd gwasanaethau yn uned annibynnol Tirion dan arweiniad bydwragedd yn dal i fod ar agor drwy gydol y cyfnod hwn, a rydyn ni'n annog menywod sy'n profi beichiogrwydd heb gymhlethdodau i ystyried yr opsiwn hwn ar gyfer eu cyfnod genedigaeth. Mae mwy o wybodaeth am FMU Tirion ar gael trwy eich bydwraig gymunedol ac ar ein gwefan. Rydym yn cynnig taith rithwir, teithiau wyneb yn wyneb o amgylch yr

uned a dosbarthiadau cyn-geni os hoffech archwilio hyn fel opsiwn ar gyfer man geni.

Os bydd angen trafnidiaeth arnoch (ar gyfer monitro ychwanegol, poenladdwyr neu adolygiad gan feddyg), bydd hyn yn cael ei drefnu i'r uned obstetrig yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, gan na fydd Ysbyty Tywysoges Cymru yn gallu derbyn unrhyw dderbyniadau yn ystod y cyfnod o amser mae'r gwaith yn cael ei wneud. Bydd y rhan fwyaf o drafnidiaeth yn cael eu cefnogi gan Wasanaethau Ambiwlans Cymru, gan ddilyn ein llwybrau a'n canllawiau arferol, oni bai ei bod yn ddiogel yn glinigol argymell trafnidiaeth yn eich cludiant personol eich hun.

**C. Beth os nad yw'r genedigaeth yn y cartref neu Uned Bydwreigiaeth Annibynnol Tirion yn cael ei hargymell i mi ond dyna lle hoffwn i gynllunio fy enedigaeth?**
A. Mae genedigaeth yn y gartref ac uned bydwreigiaeth annibynnol (FMU) yn cael eu hargymell yn glinigol ar gyfer menywod sy'n profi beichiogrwydd heb gymhlethdodau (sydd fel arfer yn derbyn gofal dan arweiniad bydwragedd). Rydym yn deall, am lawer o wahanol resymau, y gall menywod na fydden nhw'n fel arfer yn cael eu hargymell i eni yn y cartref neu mewn lleoliad dan arweiniad bydwragedd yn ddewis cynllunio genedigaeth yn y cartref neu mewn lleoliad FMU. Os yw hyn yn wir, byddwch yn cael eich cefnogi'n llawn gyda gwybodaeth a chyngor gan gynnwys y gofal y gallwn ac na allwn ei ddarparu mewn lleoliad dan arweiniad bydwragedd. Byddwch yn cael eich cefnogi gan eich bydwraig gymunedol (ac weithiau gan fydwraig ymgynghorol/obstetrydd ymgynghorol) a'n nod fydd eich cefnogi i wneud penderfyniad gwybodus a rhoi cynllun gofal unigol ar waith i weddu i'ch anghenion a'ch dewisiadau.

**C. Hoffwn gael genedigaeth mewn dŵr. Ble gallwn i gael mynediad at y cyfleusterau hynny?**
A. Mae cyfleusterau genedigaeth mewn dŵr ar gael i'r rhai sy'n cynllunio genedigaeth yn y cartref, yn FMU Tirion, ac yn AMU Tair Afon (PCH) a ward genedigaeth PCH i hwyluso'r defnydd o ddŵr ar gyfer genedigaeth.

**C. Ble fydda i'n gallu cael mynediad at epidwral i leihau poen yn ystod y cyfnod genedigaeth?**
A. Nid yw cyffuriau poenladdwyr epidwral ar gael mewn lleoliad dan arweiniad bydwragedd gan fod hwn yn cael ei roi gan feddyg arbenigol (anaesthetegydd). Bydd mynediad i boenladdwyr epidwral yn yr uned obstetrig yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, Ysbyty Singleton neu Ysbyty Athrofaol Cymru.

**C. Sut y byddwn i'n cael mynediad i uned beichiogrwydd cynnar ar gyfer problemau beichiogrwydd cynnar annisgwyl/a fydd Uned Beichiogrwydd Cynnar yn Ysbyty Tywysoges Cymru o hyd?**
A. Ni fydd unrhyw newid i wasanaethau uned beichiogrwydd cynnar yn Ysbyty Tywysoges Cymru yn ystod y cyfnod hwn o gau dros dro.

**C. Fyddaf yn dal i allu mynd i apwyntiadau clinig cyn-geni sydd wedi ei drefnu gyda fy obstetrydd yn Ysbyty Tywysoges Cymru?**
A. Bydd pob apwyntiad clinig cyn-geni arferol ag obstetrydd yn parhau i fod fel arfer drwy glinig cyn-geni ar safle POW. Fodd bynnag, bydd angen apwyntiad gyda'r bwrdd iechyd o'ch dewis ar gyfer rhoi genedigaeth, erbyn 36 wythnos er mwyn sicrhau bod eich cofnodion a'ch dewisiadau wedi'u cofrestru.

**C. Fyddaf yn dal i fynd i POW am brofion gwaed?**
A. Byddwch, byddwch yn dal i fynd i POW ar gyfer pob prawf gwaed arferol. Er enghraifft, bydd y rhai sy'n cael eu cymryd ar gyfer sgrinio cyn-geni, a phrofion goddefiad glwcos (os nodir) yn parhau i gael eu cynnig fel arfer trwy glinig cyn-geni/patholeg ar safle POW. Unwaith y bydd eich gofal wedi'i drosglwyddo i'ch bwrdd iechyd dewisol, efallai y bydd angen profion gwaed ychwanegol arnoch.

**C. Beth os bydd angen adolygiad brys/heb ei gynllunio arnaf gyda meddyg neu fydwraig ar gyfer materion fel pwysedd gwaed uchel, poen yn yr abdomen, gwaedu neu newid yn symudiadau fy mabi?**
A. Os ydych dros 16 wythnos o feichiogrwydd, a bod gennych bryder brys/annisgwyl neu amheuaeth o gymhlethdod beichiogrwydd, byddem yn eich annog i gysylltu â'ch man geni arfaethedig/uned obstetrig agosaf am gyngor ac, os oes angen, i wneud trefniadau i gael eich asesu gan fydwraig/Obstetrydd. Bydd eich bydwraig gymunedol yn gallu rhoi rhifau ffôn cyswllt i chi ar gyfer eich man geni arfaethedig.

Byddem yn eich annog i drafod eich opsiynau ar gyfer man geni a threfnu trafodaeth cynllun geni gyda'ch bydwraig gymunedol benodol. Gall eich bydwraig gymunedol gynnig cymorth unigol a phersonol a gwybodaeth am eich amgylchiadau unigol, a gwneud trefniadau gyda byrddau iechyd cyfagos, os mai dyna fyddai orau gennych.

**C. Beth os oes gen i broblemau ynghylch mynediad i gar/teithio/treuliau?**
A. Os ydych chi'n poeni am deithio i'ch man geni arfaethedig, siaradwch â'ch bydwraig gymunedol.

**C. Gyda phwy y bydd angen i mi gysylltu os oes gennyf bryderon beichiogrwydd brys amdanaf i neu am fy mabi?**

Dylai pob menyw sy'n derbyn eu gofal cyn-geni yn BIP Cwm Taf Morgannwg sydd ag unrhyw bryderon beichiogrwydd brys gysylltu â'r Uned Blaenoriaeth Mamolaeth (MPU) yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ar 01685 728633.

Mae ein MPU ar gael 24/7.

Mae hyn yn cynnwys os ydych wedi dewis cael eich babi mewn ysbyty arall. Er enghraifft, os ydych wedi archebu i roi genedigaeth yn Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd neu Ysbyty Singleton, Abertawe, dylech barhau i gysylltu â'n MPU ar 01685 728633.

**C. Gyda phwy y bydd angen i mi gysylltu os ydw i yn/yn meddwl fy mod yn barod i roi genedigaeth neu os ydw i wedi torri fy nyfroedd?**

A. Os yw eich dyfroedd wedi torri, neu os ydych yn meddwl eich bod yn barod i roi genedigaeth fel arfer, byddem yn eich annog i gysylltu â'ch man geni arfaethedig i wneud trefniadau i gael eich asesu gan fydwraig.

- Os mai hon yw Canolfan Geni Annibynnol Tirion: **01443 443524**
- Os mai PCH (MPU) yw hwn: **07442 865989 / Y Ward Geni – 01685 728890**
- Os mai Ysbyty Singleton yw hwn: **01792 530862**
- Os mai Ysbyty Athrofaol Cymru yw hwn: Uned Asesu Obstetrig - **02920 744658** / Y Ward Geni – **02920 748565 / 02920 742679 / 02920 742686**

**C. Ble gallwn i gael mwy o wybodaeth/trafod fy anghenion unigol ymhellach?**

A. Byddem yn eich annog i gysylltu â'ch bydwraig/tîm cymunedol penodol yn y lle cyntaf a fydd yn gallu darparu gwybodaeth, esboniadau a'ch cyfeirio at wybodaeth ychwanegol os bydd ei hangen arnoch. Gallan nhw hefyd gynnig cymorth a gwybodaeth unigol a phersonol wedi'u teilwra i'ch amgylchiadau unigol. Bydd eich bydwraig gymunedol hefyd yn cael ei chefnogi gan yr uwch dîm os oes amgylchiadau mwy cymhleth y mae angen i ni ddarparu cymorth unigol ychwanegol.

# Gofal Newyddenidigol

**C. Gallaf ddewis yr uned y caiff fy mabi ei drosglwyddo i?**

A. Byddwn yn gwneud ein gorau i ystyried dewisiadau ac amgylchiadau personol rhieni, fodd bynnag, lefel y gofal sydd ei angen ar eich babi sy'n pennu ble mae eich babi yn derbyn y gofal. Efallai y bydd angen lefel uwch o ofal ar rai babanod oherwydd eu bod yn sâl iawn ac felly bydd angen eu trosglwyddo i Uned Gofal Dwys Newyddenedigol tra bydd

babanod eraill angen gofal arbennig neu ofal dibyniaeth fawr a gellir gofalu amdanyn nhw’n ddiogel mewn uned newyddenedigol leol. Mae hyn hefyd yn amodol ar argaeledd cotiau yng Nghymru.

**C. Fyddwn i’n dal i gael aros gyda fy mabi tra bydd yn yr uned babanod newydd-anedig?**
A. Byddwch yn dal i allu treulio cymaint o amser ag y dymunwch gyda'ch babi, yn Ysbyty’r Tywysog Siarl, Singleton ac Ysbyty Athrofaol Cymru.

**C. Bydd fy nheulu a ffrindiau agos yn gallu ymweld â'r babi?**
A. Gall teuluoedd a brodyr a chwiorydd ymweld â'r unedau newyddenedigol ym mhob ysbyty. Yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, dyma oriau ymweld i rieni.
11am – 1pm a 3pm – 6.30pm i deuluoedd (2 aelod o’r teulu fesul crud)

Mae Oriau Ymweld Newyddenedigol Caerdydd a'r Fro a Bae Abertawe ar gael ar eu gwefan

**C. Fyddwn i’n gallu aros gyda fy mabi dros nos?**
A. Os yw'ch babi yn aros o fewn Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg, mae gennym ni ystafelloedd gwely dau riant ar gyfer dau set o rieni ar unrhyw adeg benodol. Yn ogystal, lle nad yw'r ystafelloedd gwely hyn ar gael rydym yn cynnig cysgu wrth ochr y gwely ac yn darparu gwelyau plygu neu gadeiriau gogwyddo.

**C. Mae ward plant yn POW, pam na all fy mabi fynd yno?**
A. Mae unedau babanod Newydd-anedig wedi'u cyfarparu'n arbennig i ofalu am fabanod tymor sâl a babanod cynamserol. O fewn y cyfnod newyddenedigol, mae'r Uned Babanod Newydd-anedig yw'r lle mwyaf priodol i gynnig gofal arbenigol i'ch babi. Fodd bynnag, wrth i'ch babi dyfu'n hŷn, os yw'n bodloni'r meini prawf ar gyfer ward plant, dyma pryd yr ystyrir trosglwyddo.

**C. Fydda i’n cael pryd o fwyd tra bydd fy mabi yn yr uned?**
A. Os yw eich babi yn aros o fewn Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg, rydyn ni’n darparu un pryd o fwyd y dydd i’r rhieni. Efallai y bydd gan unedau mewn byrddau iechyd eraill ddarpariaeth wahanol.

**C. Fydda i’n dal i allu cael cymorth bwydo ar y fron?**
A. Os yw'ch babi yn aros o fewn Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg mae gennym ni arweinwyr bwydo babanod sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig i gefnogi rhieni gyda'u dewis o fwydo. Mae staff nyrsio ar draws yr holl fyrddau iechyd wedi’u hyfforddi i gefnogi bwydo babanod.

**C. Beth fydd yn digwydd os bydd fy mabi yn dal yn glaf mewnol pan fydd POW yn ailagor? Bydd fy mabi yn cael ei drosglwyddo yn**

**ôl i POW?**
A. Byddwn yn anelu at drosglwyddo eich babi yn ôl i'ch ysbyty sylfaenol cyn gynted â phosibl.

**C. Bydd fy mabi yn cael ei neilltuo i ymgynghorydd newydd?**
A. Bydd eich babi yn cael apwyntiad dilynol gan ymgynghorydd lleol yn POW a bydd yr ymgynghorydd hwn yn ymwneud â chynllunio rhyddhau os oes gan eich babi anghenion cymhleth pan gaiff ei ryddhau. Byddai cyfle i gwrdd â'r ymgynghorydd a fydd yn gyfrifol am ofal eich babi mewn cyfarfod cynllunio rhyddhau cyn i chi fynd â'ch babi adref.

**C. Bydd fy mabi yn cael y gofal cywir yn yr uned y mae'n cael ei drosglwyddo i?**
A. Mae gan bob uned yng Nghymru weithwyr proffesiynol meddygol, nyrsio ac iechyd perthynol i ddarparu lefelau priodol o ofal.

**C. Ble bydda i'n mynd â fy mabi ar gyfer apwyntiadau dilynol?**
A. Bydd apwyntiadau dilynol yn dal i fod ar gael trwy'r adran cleifion allanol yn POW. Bydd yr holl wasanaethau allgymorth newyddenedigol yn dal yn lleol.

**C. Ble gallwn i gael rhagor o wybodaeth os oes angen?**
A. Gallwch gael rhagor o wybodaeth gan y nyrs sy'n gofalu am eich babi. Mae ein uwch dîm rheoli nyrsio hefyd ar gael i siarad â chi. Gofynnwch i'r nyrs sy'n gofalu am eich babi i drefnu i chi siarad ag uwch reolwr.